



8 Ionawr 2021

Annwyl Bennaeth

Dymuniadau da i chi am flwyddyn newydd gwell yn y gobaith y daethoch o hyd i beth amser i orffwys yn ystod yr egwyl.

Yn anochel, ac fel y nodais yn fy llythyr atoch ar 16 Rhagfyr, rydym wedi gweld dechrau anodd i 2021 gyda Chymru ar lefel rhybudd 4, ac ysgolion a cholegau yn symud i ddysgu o bell, oherwydd cynnydd sylweddol yn nhrosglwyddiad y straen COVID-19 newydd.

Bydd y Prif Weinidog yn cadarnhau heddiw y byddwn yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ysgolion a cholegau yn cyd-fynd ag amserlen adolygu tair wythnos Llywodraeth Cymru ar 29 Ionawr. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr yn parhau i ddysgu o bell a bydd plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ar y safle ynghyd â dysgwyr sy'n dilyn arholiadau ac asesiadau hanfodol, tan hynny.

Bryd hynny, oni bai bod cyfraddau trosglwyddo cymunedol yng Nghymru yn gostwng yn sylweddol erbyn 29 Ionawr, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau yn parhau i weithio o bell tan hanner tymor mis Chwefror.

Rwyf am bwysleisio – dan arweiniad adroddiad TAG, i'w gyhoeddi cyn cyhoeddiad y Prif Weinidog – nad yw hwn yn ddewis deuaidd syml rhwng cau ysgolion nawr a'u hailagor ym mis Chwefror. Mae adroddiad TAG yn glir ar gyfraniad addysg i'n hymdrechion i ddelio â hyn, nid am fod ysgolion bellach yn fwy anniogel neu'n peri risg uwch i athrawon a phlant.

Yr ydym yn cymryd y camau hyn oherwydd bod yr amrywiolyn newydd yn arwain at lawer mwy o heintiau ac yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn sâl ac yn mynd i'r ysbyty.

Byddwn yn defnyddio'r wythnosau nesaf i weithio gydag awdurdodau lleol, undebau a phenaethiaid i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym am weithio gyda'n gilydd yn greadigol i edrych ar yr holl bosibiliadau ar gyfer dychweliad graddol, a diogel, rhai disgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi cyflawni hyn ym mhob tymor newydd ers yr haf a'n cenhadaeth gyfunol yw blaenoriaethu twf, dysg a lles ein plant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Bydd cydweithwyr yn gwybod nad yw'r amrywiolyn newydd yn golygu bod ysgolion wedi mynd yn anniogel yn sydyn. Nid ydynt yn peri mwy o risg i athrawon na myfyrwyr.

Fodd bynnag, mae cadw ysgolion ar agor yn annog plant ac oedolion i gymysgu - y tu mewn a'r tu allan i gatiâu'r ysgol - ar adeg pan fo achosion o coronafeirws yn uchel yn y gymuned ac mae gennym straen heintus iawn yn lledaenu'n gyflym. Ein gwahoddiad i chi yw parhau i weithio gyda ni fel y gallwn ddefnyddio'r amser hwn i fynd i'r afael ag achosion o allgau digidol, cynnal asesiadau risg newydd ac adnewyddu canllawiau, yn unol â materion a godwyd gan y gweithlu.


Bydd ysgolion a cholegau hefyd yn paratoi i weithredu'r cynnig o brofion cyfresol, er mwyn helpu i leihau nifer y dysgwyr a'r staff sy'n gorfod hunanynysu fel cysylltiadau ag achosion cadarnhaol o COVID.

Bydd gwneud hyn oll yn sicrhau y gallwn gynllunio ar gyfer dychwelyd grwpiau dethol o fyfyrwyr, yn enwedig y rhai ar adegau allweddol yn eu dysgu, i ddychwelyd i ddarpariaeth ar y safle cyn dychwelyd yn llawn.

Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi cyhoeddi canslo ffenestr asesu mewnol y gwanwyn (rhwng 22 Chwefror a 23 Ebrill) ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch. Bydd trefniadau asesu diwygiedig ar gyfer dyfarnu'r cymwysterau hyn yn haf 2021 yn cael eu rhoi ar waith cyn bo hir.

Gwn fod hwn yn gyfnod anodd i bawb ar hyn o bryd, ond byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education